

cyfansoddwyd y Gododdin. Ceir yma ffrwyth cryn waith ymchwil mewn maes astrus a dadleuol iawn: fe welir yn bur aml y gallai enw darddu o'r Aelg yr un mor debyg ag o'r Gymraeg. Ni chredaf fod yr awdur mor hdyddysg yn y Gymraeg ag y gallai fod, ac ni ddywed iddo ymgynghori ag unrhyw ysgolhaig o Gymro. Bydd angen pinriad o halen ambell dro, ond er hynny dyma lyfr gwerth pori ynddo.

## Dros Glawdd Offa - 2

Y mis Tachwedd diwethaf aethom am y tro cyntaf erioed i'r Moelfryn. I ble? Bydd yn fwy hysbys ichwi fel Great Malvern yn Sir Gaerwrangon. Yno cadwasom oed gyda Mrs Menna MacBain (Garthewin, gynt) i fynd i theatr ddymunol y dref i giniawa ac i weld *A Man for All Seasons* Robert Bolt. Dengys y ddrama hanes Syr Thomas More - ei gyfng-gyngor, ei brawf, ei garcharu a'i ddiennyddo gan y teyrn ysgeler hwnnw, Harri'r Wythfed. Cafwyd cynhyrchiad penigamp, gyda Martin Shaw fel yr arwr - perfformiad tawel, dwys a disgybledig. Golygfa anfarwol yw honno lle daw'r carchgi Sir Richard Rich i dystio yn ei erbyn. Medd More wrth Rich: That's a chain of office you are wearing. - May I see it? - The red dragon. (*Wrth Cromwell*) What's this?

**Cromwell:** *Sir Richard is appointed Attorney-General for Wales.*

**More** (gan syllu yn wyneb Rich yn boenus ac ysmala): *For Wales? Why, Richard, it profits a man nothing to give his soul for the whole world... But for Wales!*

Ac 'roedd y gynulleidfa o Saeson Malvern yn amlwg yn amenio'n frwd ddirmyg More.

Ni allem beidio â chymharu hon â'r ddrama *Sir Thomas More* a welasem yn Stratford yn gynharach y llynedd. Drama o waith nifer o awduron yw hi, yn cynnwys golygfa a briodolir i Shakespeare; ond arhosodd mewn llawysgrif hyd 1844, gan nas llwyfannwyd hi erioed. Hawdd gweld paham. Daw neges oddi wrth y brenin yn gofyn i More ac eraill danysgrifio i ryw 'erthyglau', peth y gwrthid ei wneud. Ond nid eglurir yn unman gynnwys yr 'erthyglau' (sef gofyn iddynt dderbyn bod ysgariad ac ail-briodas y brenin yn gyfreithlon) ac ni ellir deall seiliau moesol cyndynrwydd a merthyrdod More. Yn wir, anodd gweld paham y cyfansoddwyd y ddrama o gwbl, gan na fuasai modd ei llwyfannu yn nheyrnasiad Elisabeth heb wynebu'r gosb fywaf enbyd. Yr oedd *Sir Thomas More* yn rhan o raglen o ddramâu anghofedig i ddathlu pedwar canmlwyddiant Brad y Powdwr Gwn. Er eu cystal (yr oedd *Sejanus*, trasiedi Rufeinig Ben Johnson yn eu plith) prin y gellid dirnad unrhyw gysylltiad rhyngddynt â'r Brad. Eithr ar ôl 1605, fe lwyfannwyd nifer o ddramâu yn Llundain ar thema'r Brad, ond ni feiddid mo'u llwyfannu heddiw gan eu bod i gyd (wrth gwrs) yn ffyrnig o wrth-Babyddol!

## Teitl rhyfeddaf y flwyddyn?

Tref debyg iawn i Fangor Uchaf yw'r Moelfryn: un stryd hir ar lepar y mynydd serth a moel a roddes iddi ei henw, a strydoedd yn mynd ar eu pennau i odreon diweddarach y dref. Yn ogystal â'r theatr wych, mae yno eglwys priodry Normanaidd y bydd yn rhaid ymweld â hi'r tro nesaf; ac ar y mynydd ei hun ceir nifer o lwybrau gwerth eu cerdded. Mae'r stryd yn llawn o siopau bychain diddorol a buom yn ein gwaith yn mynd o'r naill siop lyfrau a siop elusen i'r llall. Credais imi daro ar groncl yn Hen Frythoneg yr ardal pan welais lyfr yn dwyn y teitl *Hyber Nant Llan Nersch Freit* - enillydd gwobr teitl rhyfeddaf y flwyddyn, 1998, 'ddyliwn i. Llyfr Saesneg ydyw er hynny: atgofion George F. Lewis am ei fagwraeth ar fferm Aber Nant Llannerchfraith ger Abaty Cwm-hir a Llanbister yn Sir Faesyfed. Anaml y gwelir llyfr o unrhyw fath yn hanu o'r sir unig a hardd honno, y treuliais beth amser ynddi pan oeddwn blentyn. Tynnir inni ddarlun swynol atgofus o fywyd cefn gwlad bron ganrif yn ôl bellach. Ymhlith atyniadau'r ardal sylwais ar un i'ch gogleis - adfeilion Castell Dinboeth - sydd (wrth gwrs) yn golygu 'caer a losgwyd'. Rydym yn gyfarwydd ag ugeiniau o atgofion tebyg yn Gymraeg. Yr un oedd y bywyd yn Llanbister, ond Saesneg oedd yr iaith. Yn y bennod am gymeriadau'r plwyf, cyfeirir at y saer eireh fel 'Welsh John', am ei fod yn fwy Cymroaidd, mae'n siŵr. Tybed a ystyriai'r pentrefwyr eraill eu bod yn rhyw fath o Saeson? Diau y byddai eu cymdogion dros Glawdd Offa wedi cwerthin am eu pennau fel 'Welsh yokels'.

## LLADD WRTH YR ALLOR

*Cyfieithiad i'r Gymraeg*

o

"MURDER IN THE CATHEDRAL" (T. S. ELIOT).

Gan

THOMAS PARRY



Llyfrau'r Dryw  
LLANIDLOES  
SIR GAERFYRDDIN

*Wyneb-ddalen Lladd wrth yr Allor  
gan Thomas Parry 1949*

Am Welsh John y stori a droddid fynychaf oedd hon: cawsai archeb i wneud dwy arch, y naill ar gyfer rhywun byr a'r llall ar gyfer rhywun tal. Galwodd perthynas i'r un tal, gweld yr arch leiaf, ac achwyn ei bod yn rhy fyr. Atebodd John 'Wass alright. Wass cut feet off!' Stori gignoeth, hafal i hiwmor du ardaloedd y chwareli, mi ddywedwn i. Cyhoeddwyd y llyfr gan Logaston Press yn 1998: ISBN & 873827 25 3. Ei bris: £7.95.

O'r pen arall i'r sir y daw *The Valley* Elizabeth Clarke (Faber & Faber 1969), hanes magwraeth yr awdures ar fferm fynydd ger Rhaeadr Gwy, cyn yr ail Ryfel Byd. Roedd y gymdeithas wledig yma'n llawer mwy Cymreigaidd ei naws - ceid eisteddfodau a chymanfaoedd canu a chyngherddau, er yn Saesneg eu hiaith yn bennaf. Siaradau Siân y forwyn Gymraeg, ac 'roedd un o'r bugeiliaid yn englynwr. Ond dywed yr awdures mai ei nain oedd yr olaf yn y teulu a siaradau Gymraeg. Er hynny, na ddigalonner: yn ddistaw bach, mae nifer o ddysgwyr pybyr yn y sir ac ymwybyddiaeth o'n hiaith ar gynydd. Yn yr Hwnderd (*Hundred House*), am y ffin â Lloegr, gelwais heibio dysgwyr, ffarmwr cyffredin, a chael croeso ganddo yn Gymraeg a gweld ei lyfrgell o lyfrau Cymraeg.

## Os Hoffech Wybod ...

Dyna deitl atgofion y prifardd Dic Jones yng *Nghyffres y Cewri* (Gwasg Gwynedd, 1989). Bwm am oes yn mynd trwy'r llyfr diddan hwn, gan imi fynd i'r cast o nodi pob gair ac ymadrodd dieithr imi. Ceir cyfoeth o iaith y Cardi ynddo, a sawl stori ddigri am feirdd y Cille. Mewn ymryson gofynnwyd i Alun y Cille orffen limrig: "... meddyliwch am ofyn i un o brif englynwyr Cymru ei ddarostwng ei hun i'r fath raddau ... Yr oedd hyn rai misoedd wedi penderfyniad i fodd Cwm Tryweryn, a Henry Brooke a'r Arglwydd Aberhonddu yn eu swyddi, a'r llinell a roddwyd inni wneud limrig ohoni oedd "Aeth Wiliam i lawr at yr afon." A dyma a gafwyd gan Alun:

*Aeth Wiliam i lawr at yr afon  
Ryw noswaith gan feddwl dal samon.*

*Fe deimlodd ryw blwch*

*Ond ni chafodd lwc*

*Dim ond dau wy clwch.*

*Y crwch Henry Brooke a'r Lord Brecon."*

Dywed Dic ymhellach "Prin y gellid disgwyl i un o'i athrylith ef ei gyfyngu ei hun i nifer arferol y llinellau". (t.215)

A dyna'r morwr, y Capten Jac Alun. "Un o'r pethau cyntaf a ddaliodd fy sylw ynglŷn ag ef oedd englyn a anfonasai at Meuryn, golygydd Colofn Farddol Y Cymro y pryd hwnnw, o Awstralia. Yr englyn ar yr amlen oedd yr unig gyfeiriad arni:

*One bee-line from down below, - Par Avion  
Private to Y Cymro.*

*Snowdonia, Wales, and you know*

*To Meuryn by tomorrow.*" (t.216)

Cyrhaeddodd y llythyr ben ei daith! A dyna em arall i'w chynnwys mewn blodeugerdd o gerddi caeth yn yr iaith fain.

## Yn ôl i Gae'r Gors

Methais fynd i glywed darlith flynyddol Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, ond cefais gopi trwy law Dafydd Glyn Jones. Ei theitl: "Teulu: 'Ni welsom erioed gyfoeth.'" Ynddi mae Dewi Tomos, llenor yn llinach Kate ei hun, brogrwr pybyr a hanesydd yr ardal, yn olrhain hanes ei gyndadau trwy ddyfynnu o'u dyddiaduron a'u cerddi, rhai'n gocosaid, rhai'n delynegol, rhai'n gynnil awgrymog:

### Shed y Chwarel

*Yn y shed mae dwndwr dwndwr,  
Sŵn olwynion mawr yn troi,  
Sŵn y byrddau'n symud symud,  
Sŵn gwneuthuriaid llechi toi.*

Tybed a all rhywun daflu goleuni ar gerdd a aeth yn astrus gyda threigl amser:

### Ffair Llanllyfni 1918

*Dyn a'm helpo Ffair Llanllyfni  
Welais neb oedd wedi meddwi,  
Nid oedd yno gwch (?) na cheffyl  
Calan fawr na phobololi.  
'Margiad anwyl' fel bu arfer  
Nid oedd yno i gollir hanner,  
Ond disgwyliaf y tro nesa  
Pan ddaw'r hogia adra  
Y cawn eto yn Llanllyfni  
Wrth hen fwrdd y Pobololi  
Hwyl a gwledd wrth weld yr Hwsmon  
'N ceisio denu merch y Geufron,  
Hogia'r Nant, y Llan a'r Mynydd  
Wedi tyrru at ei gilydd  
Ac yn gwrando'n ddistaw ddigon  
Ar y fereh yn ffoli'r Hwsmon.*

Cymeriad a werthai lestri yn y ffair oedd 'Margiad anwyl' a elwid felly gan mai fel'na y cyfarchai bob gwaig. Byddai'n stŷnt ganddo daflu llestri i'r awyr neu o'r naill law i'r llall, gan adael i rai syrthio a thorri, oni châr pris a ddymunai. Cofiaf Harry Cross yn gwneud yr un peth yn y farchnad yn y Blaenau.

Tebyg y dyldid darllen 'buech' neu o bosib 'bwech' yn lle 'gwch'; ond beth ar y ddaear oedd y 'Calan fawr' a 'bwrdd y Pobololi'? Ymholodd D.G. Jones a chael mai diod oedd pobololi, o ddŵr a sudd licoris (neu Sbanish fel y dywedwn i). Hefyd 'roedd yn lasenw ar y *Quarryman's Arms* yn Llanllyfni. A fyddai yno stondin a chalan fawr o sebon, neu siwgr, neu halen y gwerthid talpiau ohoni? Yn rhan olaf y gerdd, ni allwn beidio â theimlo bod y bardd yn disgrifio golygfa o ryw anterliwt, er mor annebygol fuasai hynny. Ond a w'r rhywun amgen? Ceir y ddarlith o Ganolfan Dechnoleg Antur Nantlle, 20 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6LR. Pris: £5 + cludiant.

## Mân Sôn

Mae'r Br John Elwyn Hughes yn chwilio am hen lun o ficerdy Glanogwen ar gyfer ei lyfr newydd ar Garadog Prichard. Cysyllter ag ef ym Mryn Ogwen, Bethel, Caernarfon LL55 3AA. Ffôn: 01248 670517.

Dymuniadau da i Robin Gwyndaf sy'n ymdeol o'i waith yn Sain Ffagan ar ôl oes o gyfrannu'n wif i astudiaethau llen gwerin.

Os hoffech ddysgu rhwymo llyfrau, ymholer â Kate Hore, Rhwymwyr Llyfrau Teesdale (Bookbinders) Caxton House, Stryd y Bont, Corwen LL21 OAB Ffôn:01490 412713.

Os oes angen esgus i ymweld â Llwydlo, hen briffidinas Cymru, galwch heibio Trevor Lloyd, y rhwymwyr llyfrau o Drefyclo sydd newydd agor siop yno.

Mae siop Ystwyth Books yn Aberystwyth ar werth. Clywais si y gallai siop lyfrau arall yn y Gogledd fod ar werth gyda hyn.

A w'r rhywun am eiriau Cymraeg i'r *Star-spangled Banner*? Aelod o gôr sydd ar fynd i America a hoffai wybod. Anfonwch ataf i 5,Heol Belmont Bangor LL57 2HS. Ffôn: 01248 371987.

Agorwyd siop lyfrau ail-law yn y Plas Newydd yn Sir Fôn.

Dewch yn llu i'r Ffair Lyfrau yn y Bala. Medi 23ain. Agorir y drysau i'r cyhoedd am 10 y bore.